| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI |
| **DYDDIAD** | 14 Medi 2023 |
| **TEITL** | Blaenraglen Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi 2023/24 |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | Mabwysiadu rhaglen waith diwygiedig |
| **AWDUR** | Bethan Adams, Ymgynghorydd Craffu |

1. Mabwysiadwyd Blaenraglen y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 8 Mehefin 2023.

2. Ers y cyfarfod yna, derbyniwyd cais gan yr Adran Addysg i'r Pwyllgor ystyried rhaglennu eitem ychwanegol ac ail amserlennu rhai eitemau sydd i'w craffu yn ystod 2023/24.

3. Manylir ar y cais isod:

   **Adroddiad Arolwg Estyn a Chynllun Gweithredu yr Adran Addysg mewn ymateb**

   Yn ystod tymor yr Haf, cynhaliodd Estyn arolwg o Awdurdod Addysg Gwynedd. Mae'n arfer da i Bwyllgorau Craffu roi sylw i adroddiad ac argymhellion Estyn a chynllun gweithredu'r Awdurdod mewn ymateb. Credir y byddai'n amserol i graffu adroddiad Estyn a chynllun gweithredu'r Adran Addysg yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 9 Tachwedd 2023.

   **Presenoldeb ac ymddygiad disgyblion yn ysgolion Gwynedd**

   Symud yr eitem o gyfarfod y Pwyllgor ar 25 Ionawr 2024 i'r cyfarfod yma. Mae'r elfen yma o'r cais yn gysylltiedig gyda'r eitem ychwanegol uchod. Y bwriad wrth symud yr eitem yma i gyfarfod Medi yw i roi cefndir o ran y maes yma ar gychwyn y flwyddyn academaidd yn sgil sylw i'r maes gan y wasg a phwyslais y Gweinidog dros Addysg a'r Gymraeg ar gynyddu lefelau presenoldeb mewn ysgolion a chyhoeddiad canllaw drafft newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer y maes ym Mehefin 2023 ynghyd ac ailgyflwyno Hysbysiadau Cosb Penodedig. Gwnaethpwyd y newid yn dilyn ymgynghori â'r Cadeirydd.

   **Adroddiad Blynyddol Addysg ac Adroddiad Blynyddol GwE**

   Er mwyn galluogi craffu'r eitem ychwanegol yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 9 Tachwedd 2023, awgrymir symud yr adroddiadau blynyddol sydd wedi eu rhaglennu ar gyfer cyfarfod mis Tachwedd i 25 Ionawr 2024.

4. Mae blaenraglen y Pwyllgor gyda'r newidiadau posib wedi eu hamlygu yn yr Atodiad. Sylwer yn ogystal bod trefn yr eitemau wedi ei addasu yn dilyn y drafodaeth yn y cyfarfod blaenorol i gael cydbwysedd o ran trefn eitemau Addysg ac Economi ar raglenni cyfarfodydd y Pwyllgor.

5. **Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi:**
   **(i) ystyried cais yr Adran Addysg;**
   **(ii) mabwysiadu rhaglen waith diwygiedig ar gyfer 2023/24.**

ATODIAD

## BLAENRAGLEN PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI 2023/24

**08/06/2023**

- Cynllunio Argyfwng
- Canol Trefi Gwynedd

**14/09/2023**

- Cynllun Digidol
- Adroddiad Ymchwiliad Craffu Ysgolion Uwchradd Categori 3 Gwynedd
- Strategaeth Addysg
- Presenoldeb ac ymddygiad disgyblion yn ysgolion Gwynedd

**09/11/2023**

- ~~Adroddiad Blynyddol Addysg~~
- ~~Adroddiad Blynyddol GwE~~
- Adroddiad Arolwg Estyn a Chynllun Gweithredu yr Adran Addysg mewn ymateb
- Cwmni Byw'n Iach
- Rheolaeth Traethau

**25/01/2024**

- ~~Presenoldeb ac ymddygiad disgyblion yn ysgolion Gwynedd~~
- Cynllun Economi Gwynedd
- Adroddiad Blynyddol Addysg
- Adroddiad Blynyddol GwE
- Prosiect Addysg Ôl-16 yn Arfon

**21/03/2024**

- Trawsnewid addysg ar gyfer plant yn eu blynyddoedd cynnar
- Cinio ysgol am ddim
- Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

<u>Eitem posib i'w raglennu yn ystod y flwyddyn</u>

Anghenion Dysgu Ychwanegol yn y prif lif ac ysgolion arbennig

<u>Eitemau i'w rhaglennu yn 2024/25</u>:

Cyfundrefn Addysg Drochi

Gwasanaeth Ieuenctid

Canol Trefi Gwynedd